Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Chwefror 5ed, 2021

Annwyl riant / warcheidwad,

Gobeithio bod pawb yn cadw'n iach yn eich tŷ chi yn ystod y cyfnod clo diweddaraf. Mae'n anodd rhagweld ar hyn o bryd benderfyniad Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ailagor ysgolion i ddisgyblion ysgolion uwchradd. Fe fydd yn rhaid aros tan y gwerthusiad 3 wythnos nesaf ar ddydd Gwener, Chwefror 19eg cyn i ni gael mwy o fanylion am hyn. Yn y cyfamser, fe wnawn ni barhau gyda'n trefniadau dysgu o hirbell, cynnal hwb yn yr ysgol a chadw at reolau COVID-19 cenedlaethol.

Rhai o ddatblygiadau pwysig yr wythnos ddiwethaf oedd sefydlu cyfnod bugeiliol ffurfiol i'r Tiwtor Personol gyda'i ddosbarth a chynnal gwasanaeth fesul blwyddyn ar fore dydd Mercher. Bydd gwasanaeth blwyddyn gyfan yn cael ei gynnal am 08:45 i bob blwyddyn ar foreau Mercher o hyn ymlaen a bydd dau gyfnod yn ystod yr wythnos i'r Tiwtor Personol gyfarfod â'r dosbarth cofrestru, sef ar fore dydd Llun a bore dydd Gwener. Gofynnir yn garedig i chi sicrhau bod eich plentyn yn bresennol yn y gwasanaeth a'r cyfnodau bugeiliol gyda'r Tiwtor Personol.

Yn ystod yr wythnos nesaf, fe fyddwn yn gwneud asesiad o ymdrech pob disgybl ymhob pwnc yn ystod y cyfnod clo diweddaraf. Byddwn yn cyhoeddi'r graddau ymdrech ar ap Edulink wythnos nesaf, cyn y gwyliau hanner tymor. Bydd y graddau ymdrech yn adlewyrchiad o ymrwymiad cyffredinol disgyblion i'r profiad dysgu o hirbell ymhob pwnc ers mis Ionawr.

Mae copi o'r amserlen ar gyfer yr wythnos nesaf ar gael ar ffurf atodiad i ddisgyblion CA3 a Blwyddyn 10.

Os na fydd darpariaeth 'fyw' ar gyfer gwers benodol, fe fydd hynny o ganlyniad i salwch athro neu amgylchiadau eithriadol, neu oherwydd bod athro ar ddyletswydd yn yr hwb yn yr ysgol. Gwneir pob ymdrech i ddarparu gwaith ar Teams neu Moodle os na fydd hi'n bosib cynnig gwers 'fyw'.

Mae Pwnc+ ar Moodle yn llyfrgell o adnoddau pynciol ychwanegol sydd ar gael i ddisgyblion sy'n cwblhau pob tasg ac yn dymuno ymestyn eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r pwnc a'u diddordeb ynddo. Mae Pwnc+ ar Moodle yn agored i ddysgwyr a rhieni wrth ddefnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair arferol Moodle / Edulink. (Mae mynediad i westeion ar gael hefyd, heb orfod mewngofnodi).

Os ydych yn chwilio am adnoddau addysgiadol ychwanegol i'ch plentyn, cofiwch am wasanaeth newydd S4C. Mae 80 awr o raglenni yn cael eu darparu ar blatfform addysg Hwb Llywodraeth Cymru, a chaiff pecynnau BBC Bitesize eu darlledu ar S4C. Bydd cynnwys addas hyd at Safon Uwch ar gael. Mae gan y BBC wasanaeth addysgiadol tebyg. Mae Hwb yn wefan sydd yn cynnwys adnoddau ac offer addysgiadol rhad ac am ddim i athrawon a disgyblion yng Nghymru. Mae gan eich plentyn fanylion cofrestru ar gyfer Hwb er mwyn cael mynediad i'r adnoddau. Cysylltwch â'r swyddfa os yw eich plentyn wedi anghofio'r manylion cofrestru.

Mae'n hanfodol bwysig bod ein plant yn cael cyfleoedd i wneud ymarfer corff yn ystod yr wythnos, yn enwedig am eu bod yn gweithio wrth ddesg ac o flaen sgrin am ran helaeth o'r dydd. Mae'r adran Addysg Gorfforol yn darparu gweithgareddau fel rhan o'r amserlen ddysgu, ond mae angen mwy na hynny ar blentyn yn ystod cyfnod mor segur.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Anogwch eich plentyn i wneud rhywfaint o ymarfer corff naill ai yn ystod amser cinio neu ar ôl 15:00 mor aml â phosib.

Rhieni Blwyddyn 10: Cofiwch am y noson rieni ar ddydd Iau, Chwefror 25ain. Bydd manylion yn cael eu hanfon atoch drwy lythyr yn esbonio trefniadau'r noson. Cynhelir y noson trwy ap Edulink One, felly mae'n bwysig bod gennych chi'r ap ar eich ffôn neu'ch cyfrifiadur er mwyn i chi gael mynediad i'r llwyfan ddigidol hon. **Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio eich cyfrif Edulink eich hun ac nid un eich plentyn.** Os ydych yn ansicr o'ch manylion cofrestru, cofiwch gysylltu â'r ysgol.

Rhieni Blwyddyn 9: Byddwn yn lansio ein hopsiynau Cyfnod Allweddol 4 ar nos Iau, Mawrth 4ydd. Bydd yr holl wybodaeth angenrheidiol ar safle Moodle yr ysgol y noson honno, sef y wybodaeth a fydd o gymorth i'ch plentyn wrth benderfynu pa bynciau opsiwn i'w hastudio ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Daw mwy o fanylion atoch am drefniadau'r noson yn ystod yr wythnosau nesaf.

Diolch i chi am ymateb i'r holiadur am ein darpariaeth dysgu hirbell. Fe dderbyniwyd dros 300 o ymatebion. Mae'r canlyniadau bras yn galonogol iawn ac yn awgrymu fod y ddarpariaeth yn plesio'r mwyafrif o'n rhieni. Fe fyddwn yn darllen yn ofalus trwy'r sylwadau ysgrifenedig dros y dyddiau nesaf ac yn adnabod os oes meysydd pwysig y medrwn datblygu ymhellach. Diolch yn fawr iawn i chi am gymryd yr amser i ymateb mor helaeth.
Yn gryno:
84% yn datgan bod gwersi byw yn dda neu yn dda iawn gyda 42% yn dda iawn
70% yn datgan bod gwersi cyswllt arall yn dda neu'n dda iawn
88% yn hapus gyda'r amserlen
85% yn credu bod cyfathrebu yn dda neu'n dda iawn
59% yn credu bod cymhelliant eu plant yn dda neu'n dda iawn (dim patrwm amlwg CA3 / CA4)
71% yn credu bod swmp y gwaith yn dda neu'n well
80% yn hapus gydag ansawdd y gwaith a osodwyd

Cadwch yn ddiogel yn ystod y cyfnod anodd hwn a chofiwch gysylltu os oes angen unrhyw gefnogaeth ar eich plentyn. Mae eu lles emosiynol yn hollbwysig i ni, ac rydym fel staff eisiau gwneud popeth y gallwn i sicrhau eu bod yn cael yr addysg a'r gofal gorau posib yn ystod y cyfnod yma.

John Hayes
Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

February 5th, 2021

Dear parent / guardian,

I sincerely hope that every member of your household is healthy and well during this current lockdown period. It is currently too difficult to predict the Welsh Government's decision on the reopening of secondary schools to pupils. We will have to wait until the next 3 week assessment, which is due on Friday February 19th, before we know for certain what happens next. In the meantime, we will continue to deliver our distance learning provision, offer our hub provision in school and abide by the national lockdown protocols.

Some important developments this week have been the formalising of the pastoral Personal Tutor sessions and the whole-year assemblies. Assemblies for every year group will continue every Wednesday morning for the foreseeable future, commencing at 08:45. There will also be two formal Personal Tutor sessions on every pupils timetable, on Monday and Friday mornings at 08:45. Please could you ensure that your child attends these important wellbeing sessions.

I have asked teachers to consider pupil effort during this current lockdown period as observed during distance learning opportunities. They will broadly consider attendance in live lessons, compliance and engagement as part of their assessment. We will report these broad effort grades through Edulink next week, before the half term holiday.

A copy of next week's timetable for KS3 and Year 10 has been sent to you as an attachment.

If there is no 'live' provision for a particular lesson, it will be due to a teacher being unwell or due to unforeseen circumstances, or as a result of a teacher staffing the hub. Every effort will be made to provide work on Teams or Moodle if it is not possible to provide a 'live' lesson.

Pwnc+ on the school's Moodle site is a repository for additional subject material for those pupils who manage to complete every class-based task and who are looking to enhance and develop their interest, understanding and awareness of particular subjects. Both learners and parents can log in using their usual Moodle / Edulink username and password. (Guest access is also available, without having to log in).

If you are looking for additional educational material for your child, S4C is providing 80 hours of programmes uploaded to the educational Hwb platform, and BBC Bitesize programmes will be broadcast on S4C throughout the week. There will be content to support all ages up to A-level. Hwb is a Welsh Government funded website that has a large range of free educational resources and tools for teachers and pupils in Wales. Your child has a username and password for Hwb. Please contact the school office if your child has forgotten their log-in details.

It is essential that children have enough opportunities to engage in physical exercise during the week, especially as they are spending so much time at their desks and in front of a screen. The P.E. department are providing activities during timetabled lesson time, but young people need more than that during such a sedentary period. Please encourage your child to partake in some form of physical exercise either during the lunch break or after 15:00 as often as possible.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

Year 10 parents: You will shortly receive arrangements for the forthcoming parents evening arranged for Thursday, February 25th. The parents evening will be delivered through the Edulink app, which you should all have downloaded to either your phone, PC or both. It is imperative that you have your own account, **as you will not be able to use your child's account.** If you have forgotten your account details, please contact the school.

Year 9 parents: We will launch our Key Stage 4 presentation evening on Thursday, March 4th. All the presentations and details required for your child to be able to make their subject option choices for Years 10 and 11 will be available on the school's Moodle site. All the necessary details about the presentations will be sent to you over the course of the next few weeks.

Thank you to those who responded to the questionnaire about our distance learning provision. We received over 300 responses. The overall results are extremely postitive which suggests that the majority of parents are pleased with our provision. We will take time to read through all the written comments during the coming days to identify any important recurring themes in order for us to improve our provision further. Thank you again for taking the time to respond fully to the questionnaire.
In summary:
84% agreed that live lessons are good or very good; 42% believed that 'live' lessons are very good.
70% agreed that other 'contact' lessons were good or very good.
88% happy with the timetable.
85% believe that communication is good or very good.
59% felt that their child's motivation was good or very good (no obvious pattern between KS3 and KS4).
80% happy with the quality of work provided.

Please keep safe during these difficult times and remember to contact the school should you require any support that we may be able to offer you as a family. Your child's emotional wellbeing is of paramount importance to us and we will do everything in our means to offer the best possible academic and pastoral support for your child during this lockdown period.

John Hayes
Headteacher